# Ponatinib i drin lewcemia myeloid cronig a lewcemia lymffoblastig acíwt

28 Mehefin 2017

Mae ponatinib (Iclusig) ar gael ar y GIG.

Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer lewcemia myeloid cronig ar y cam cronig, wedi'i gyflymu neu ffrwydrad mewn oedolion:

- na allant gael dasatinib na nilotinib neu y mae eu clefyd yn eu gwrthsefyll neu
- na allant gael triniaeth ddilynol gydag imatinib neu
- sydd â'r mwtadiad genyn T315I.

Mae hefyd yn driniaeth bosibl ar gyfer lewcemia lymffoblastig acíwt cromosom-Philadelphia-positif mewn oedolion:

- na allant gael dasatinib neu y mae eu clefyd yn ei wrthsefyll neu
- na allant gael triniaeth ddilynol gydag imatinib neu
- sydd â'r mwtadiad genyn T315I.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Gofal Lewcemia, 08088 010 444
- Cymdeithas Canser Lewcemia, 0208 374 4821
- Bloodwise  (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol) , 0808 2080 888
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Macmillan, 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2563-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights